

Busnes

"Mae Busnes wedi bod yn llawer o fudd i mi. Rwyf wedi magu hyder i ddechrau busnes fy hun un diwrnod. Mae dewis Busnes wedi galluogi i mi ddysgu llawer o sgiliau buddiol yn ogystal â gwella fy effeithiolrwydd personol."

Aaron Heald

Pam astudio Busnes?

Bydd Safon Uwch OCR mewn Busnes yn annog dysgwyr i gael eu hysbrydoli, eu hysgogi a'u herio drwy ddilyn cwrs astudiaeth eang, cydlynol, ymarferol a gwerth chweil. Mae'r cwrs yn edrych ar sut mae busnesau'n gweithio ac yn rhoi profiad o hyn i'r dysgwyr. O ganlyniad, mae'n ysgogi eu chwilfrydedd ac yn eu hannog i ymwneud â'r byd masnach yn eu bywydau o ddydd i ddydd, yn ogystal â gwneud penderfyniadau deallus ynghylch astudiaethau pellach a dewisiadau gyrfa. Mae pob rhan yn cynnwys asesiad synoptig, felly bydd dysgwyr yn cael profiad dysgu cyfannol ac yn gallu defnyddio'r cysyniadau mewn sefyllfaoedd gwahanol. Mae'r cwrs hwn hefyd yn addas ar gyfer dysgwyr sy'n mwynhau gwaith cwrs gan mai dyma yw 3 o'r 5 uned.

Gofynion y cwrs

Bydd gradd C ar lefel TGAU mewn Cymraeg, Gwyddoniaeth a Mathemateg yn sicrhau lle i chi ar y cwrs hwn. Mae'n bosibl dilyn y cwrs gyda graddau is yn y pynciau hyn yn dilyn sgwrs gyda'r Pennaeth Adran a Phennaeth y Chweched.

Nid oes rhaid cael TGAU/BTEC mewn Busnes er mwyn dilyn y cwrs.

Manylion y cwrs a'r dulliau asesu

Mae'r cwrs OCR Cambridge Technicals Lefel 3 Tystysgrif Estynedig Busnes yn cynnwys pump uned. Astudir dwy ohonynt, sef Uned 1 ac Uned 4, ym mlwyddyn gyntaf y dystysgrif ac astudir y tair arall, sef Uned 2 a 2 uned ychwanegol, i'w pennu, yn ystod yr ail flwyddyn ar gyfer y Dystysgrif Estynedig.

Unedau'r Dystysgrif yw:

Uned 1 – YR AMGYLCHEDD BUSNES – Arholiad Ysgrifenedig: 2 awr

Uned 4 – CWSMERIAID A CHYFATHREBU – Gwaith cwrs

Unedau'r Dystysgrif Estynedig yw: (yr uchod a 3 uned ychwanegol)

Uned 2 – GWEITHIO MEWN BUSNES

– Arholiad Ysgrifenedig: 1 awr 30 munud

Uned 8 – Cyflwyniad i adnoddau dynol – Gwaith cwrs

Uned 11 – Cysyniadau cyfrifyddu Gwaith cwrs

Sgiliau a ddatblygir a swyddi posibl

Mae nifer o brifysgolion yn cydnabod gwerth cymhwyster busnes. Gall dysgwyr yna ddilyn gyrfa ym myd y gyfraith, busnes neu gyllid. Mae graddedigion Busnes a Rheolaeth fel arfer yn dilyn gyrfa mewn meysydd fel datblygiad busnes, marchnata, recriwtio a bancio, er bod digonedd o opsiynau eraill hefyd ar gael.

